# Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
# ANT 18 - PENTIR TYDDEWI













### Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol
Darn mawr o iseldir tonnog a'r ardal arfordirol gysylltiedig o glogwyni a thraethau ar ran helaeth o'r pentir.

### Nodweddion Gweledol a Synhwyraidd
Mae'r Ardal Agwedd fawr hon ar bentir Tyddewi yn cynnwys tirwedd sy'n nodweddiadol o orllewin Sir Benfro, gyda thir fferm ychydig yn donnog SYDD â chymeriad agored. Mae'r tir uwch yn cynnig golygfeydd o fewn y Maes Agwedd a golygfeydd hygyrch a fenthycwyd o'r arfordir ac Ynys Dewi, bryniau nodedig Carn Llidi i'r gogledd a thuag at adeiladau yn ninas Tyddewi - gan gynnwys yr Eglwys Gadeiriol - sydd oll yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le. Nodwedd o'r arfordir yw'r gyfres o glogwyni danheddus tal a llethrau serth, pentiroedd caregog ar raddfa fach a chilfachau gyda thraethau tywodlyd.

### Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd
Mae'r cynefinoedd yn cynnwys gweundir sych a gwlyb, glaswellt y bwla a phorfeydd brwynaidd, a chors. Dominyddir y morlin gan glogwyni a thraethau caregog.  Mae yna system dwyni tywod greiriol

**Nodiant y Map:**

| | |
|---|---|
| (llinell felen / goch) | Ffin y Parc Cenedlaethol |
| (llinell ddu) | Ffin yr ANT |
| (llinell doredig ddu ar felyn) | Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol |

### Nodweddion Daearegol
Llwyfan arfordirol sy'n ffurfio rhan ddaearol pentir deheuol penrhyn Tyddewi, a ddominyddir gan arwyneb gwastad i fyny at tua 50-60m UDO gyda pheth twmpathau lleol, eang ac isel. Dominyddir y ddaeareg gan greigiau folcanig Cyn-gambriaidd gyda rhewglai i'r gogledd ddwyrain. Tir ychydig yn donnog i'r gorllewin o afon Solfach yn codi i tua 90m. Dominyddir gan lechi a thywodfaen Cambriaidd gyda Chyn-gambriaidd i'r gogledd ddwyrain. Cromen isel tua 75m yn ardal Tyddewi. Hefyd yn cynnwys ardal isel o lwyfan arfordirol tua 35-40m yn ardal Bae Caerfai. Dominyddir gan graig igneaidd Cyn-Gambriaidd gyda Chambriaidd i'r de. Mae yna adran arfordirol enwog sy'n cynnwys amlygiadau pwysig o greigiau Cambriaidd ac Ordoficaidd. Dominyddir gan glogwyni môr, heb unrhyw ardaloedd o flaendraeth caregog, neu ardaloedd cyfyngedig o'r fath, fel arfer. Yn lleol, mae gan gildraethau draethau tywodlyd ac mae ceg sawl ria bach i'w gweld hefyd.

### Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol
Yn ogystal â beddrodau siambr a chrugiau crwn, mae yna feini hirion, bryngaer o'r Oes Haearn a henebion a chapeli helaeth o'r Oes Gristnogol Gynnar, y cyfan o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r ardal o amgylch anheddiad eglwys gadeiriol Tyddewi yn dirwedd archeolegol gyfoethog sy'n cynnwys olion o gynhanes, a hefyd tystiolaeth o gyfnodau diweddarach. Mae'r ANT hon yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi.

# Gwerthusiad ac Argymhellion

| ANT Rhif | Ardal Nodwedd | Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyraidd | Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol | Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd | Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol | Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | Pentir Tyddewi | 25- Eithriadol<br>28 - Canolig<br>29- Eithriadol | 86 - Canolig<br>89 - Uchel<br>92-Eithriadol<br>97-Canolig<br>98 - Canolig<br>100 - Canolig | 490- Uchel<br>575 - Canolig<br>582 - Uchel<br>511- Uchel<br>633- Canolig<br>641 - Eithriadol<br>836 - Uchel<br>888- Uchel<br>957 - Uchel<br>996 - Canolig | 46225-Eithriadol<br>42269-Eithriadol<br>42270-Eithriadol<br>42273-Eithriadol<br>42279-Eithriadol | 004 - Eithriadol |

**Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:**

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

*(Mae’r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)*

## Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- I raddau helaeth, dyma amgylchedd gwledig, agored, eithaf heddychlon gyda golygfeydd deniadol o’r arfordir a’r eglwys gadeiriol yn Nhyddewi
- Mae yna dri darn o wlypdir a gweundir isel gydag ardaloedd o ddŵr sy’n sefyll, elfen brin yn y Parc Cenedlaethol. Mae yma gynefinoedd sy’n bwysig yn rhyngwladol, yn enwedig glaswelltiroedd a gwaun isel
- Mae yna gyfoeth o nodweddion hanesyddol ac archeolegol sy’n bwysig yn genedlaethol ac sy’n arwain at dirwedd o werth hanesyddol eithriadol. Mae yna enghreifftiau da o dai cynhenid nodedig Sir Benfro gyda’u rhannau allanol a’u simneiau crwn enfawr
- Mae’r digonedd o safleoedd Cristnogol cynnar yn bwysig. Mae gan y Porth Mawr, yn arbennig, gysylltiadau cryf gyda Thyddewi, ac mae hyn yn rhannol ddyledus i safle capel pererinion San Padrig yn y cae tu ôl i’r traeth. Byddai hwn wedi bod yn bwynt glanio pwysig i gychod y rheiny a fyddai wedi dod ar bererindod i Dyddewi ar y môr.
- Mae’r cysylltiadau gyda dinas eglwys gadeiriol Tyddewi yn hynod o bwysig yn niwylliant Cymru ac wrth wraidd gwerth diwylliannol eithriadol yr ardal hon. Cefnogir y gwerth diwylliannol ymhellach gan y darn parhaus mawr o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyd penrhyn Pen Dal-aderyn, sy’n rhedeg tua’r dwyrain i Borth Clais a thu hwnt i Solfach. Cydnabuwyd hyn yn ffurfiol gan y ffaith iddi gael ei chynnwys yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Pentir Tyddewi ac Ynys Dewi. Mae yna dystiolaeth helaeth, wedi ei chadw’n dda, o ddefnydd tir a gweithgarwch defodol a chrefyddol dwys o gynhanes ymlaen, gan gynnwys anheddiad a beddrodau siambr Neolithig, systemau cae a chaerau o’r Oes Haearn.
- Clegyr Boia yw’r unig enghraifft yn Sir Benfro o anheddiad domestig Neolithig, amddiffynfa gaerog ar frigiad bryn caregog i’r gorllewin o Dyddewi.

### Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae’n ymddangos fod yr ardal mewn cyflwr cyson o ddefnydd amaethyddol cymysg o ffermio âr a da byw
- Mae gan rai o’r unedau fferm adeiladau amaethyddol diweddar sy’n anghydweddol ar y dirwedd hon, a’r adeiladau fferm cynhenid traddodiadol

### Canllawiau Rheoli

- Unrhyw feysydd carafán a gynigir - neu estyniadau i safleoedd presennol - i’w lleoli er mwyn cadw’r effaith weledol i leiafswm o fewn y dirwedd. Rhaid iddynt hefyd barchu pwysigrwydd hanesyddol yr ardal hon; lliniaru effeithiau gweledol presennol
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad perthi traddodiadol a waliau cerrig ar ffiniau cae, yn enwedig mewn lleoliadau gweledol pwysig, a rheoli perthi ar sail gylchol, reolaidd
- Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi’i wella’n amaethyddol ymestyn i mewn i ardaloedd o weundir isel a sicrhau bod unrhyw adeiladau amaethyddol yn parchu pwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd o ran eu lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu
- Sicrhau bod lefelau pori’n briodol i’r cynefinoedd gweundir a glaswelltir pwysig sydd o bwysigrwydd ecolegol. Cynyddu’r ardaloedd o brysg gors a glaswelltir arfordirol heb eu rheoli
- Archwilio cyflwr ardaloedd o laswelltir twyni ac edrych ar ffyrdd o wella’u gwerth
- Ystyried defnydd priodol ar gyfer adeiladau fferm hanesyddol unwaith y bydd eu hoes economaidd wedi dod i ben
- Sicrhau, cyhyd ag sy’n bosib, na chollir unrhyw nodweddion daearegol na geomorffolegol pwysig ac na chânt eu difrodi
- Hybu dehongliad priodol ar gyfer olion o gynhanes, gyda chyfeiriad penodol at Glegyr Boia, yr unig enghraifft yn Sir Benfro o anheddiad domestig Neolithig
- Sicrhau, cyhyd ag sy’n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na’u difrodi.